## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar 24ain Tachwedd 2004 am 10.00a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr S. Thomas (Cadeirydd), J.R. Bartley, R.E. Barton, J. Butterfield, D. Cooper, J. M. Davies, S.A. Davies, G.C. Evans, H.H. Evans, I.M. German (sylwedydd) , M.A. German, D. Hannam, K.N. Hawkins, T.K. Hodgson, N.J. Hughes, T.R. Hughes, N. Hugh-Jones, D. Jones, M.M. Jones, G.M. Kensler (sylwebydd), P.W. Owen, N.P. Roberts, D.A.J. Thomas, J. Thompson-Hill, C.H. Williams, E W Williams ac R.Ll. Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Adeiladu, Swyddog Cynllunio ( Iwan Lloyd), uwch Swyddog Cefnogi (G. Butler), Swyddog Gweinyddol (Judith Williams), Bryn Jones (Cyfieithydd ) a Chlerc y Sir (Ian Hearle) yn bresennol ar gyfer cais Ysgol Howell a Sue Broadaway yn bresennol ar gyfer ceisiadau Ysgol Howell a'r Hen Sinema, Dinbych.

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr E.R. Jones, Jeanette Chamberlain-Jones, Sharon Frobisher a Mark Webster.

### 403 MATERION BRYS

Fferm Wynt, Gwyddelwern

Hysbysodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yr Aelodau bod y cais ar gyfer y Fferm Wyn arfaethedig yn Wern Ddu, Gwyddelwern yn debygol o fod ar raglen Pwyllgor mis Ionawr. Gofynnwyd i'r aelodau os oeddynt yn ystyried y byddai'n ddymunol trefnu ymweliad safle cyn hynny.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Swyddogion yn trefnu sesiwn briffio ac ymweliad safle â safle'r fferm wynt arfaethedig yn gynnar ym mis Rhagfyr.*

### 404 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhestru cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD**:-

(a) Cadarnhau'r argymhellion a wnaed gan y Swyddogion, fel y cynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd nawr, a rhoi caniatâd cynllunio neu wrthod fel y bo'r achos, fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn ddarostyngedig i'r amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir nawr:

(i) **Caniatâd**

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 03/2004/1369/PF | Cyn belled â na dderbynnir unrhyw gyflwyniadau pellach yn codi materion cynllunio nas trafodwyd eisoes yn yr adroddiad erbyn 20fed Tachwedd 2004.<br>Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Llangollen a Mr & Miss T.A. Gibson, 4 Wern Road, Llangollen. |

Adnewyddu ffenestri to presennol gyda ffenestri dormer. Whiteoaks 3 Wern Road, Llangollen.

14/2004/1225/PF

Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Cyffylliog.
Adeiladu tŷ annedd sengl.
Tir ar Lain 6 ger Maes y Delyn Cyffylliog Rhuthun
(Ymatalodd y Cynghorwyr Morfydd Jones & N. Hughes rhag pleidleisio).
Yn amodol ar Amodau Diwygiedig – Dileu amod 1 ac ail-rifo'r gweddill.
4. O fewn dau fis o ddyddiad y caniatâd hwn, dylid cyflwyno i a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol gynllun manwl o dirweddu caled a meddal ar gyfer y safle a dylai'r cynllun gynnwys manylion:-
(a) Coed, prysgwydd neu lystyfiant newydd arfaethedig, gan gynnwys cadarnhau rhywogaeth, niferoedd a lleoliad ac amseriad y plannu;
(b) Deunyddiau arfaethedig i'w defnyddio ar y llwybrau a mannau arwyneb caled eraill;
(c) Lleoliadau, dyluniad, deunyddiau a mathau o driniaeth ffiniau arfaethedig.
Nodiadau i'r ymgeisydd -
1. Tynnir eich sylw at Nodiadau Priffyrdd Atodol 1, 3, 4, 5 a 10.
2. Tynnir eich sylw i ffurflen Rhan N sydd ynghlwm (Deddf Ffordd a Gwaith Stryd Newydd 1991).
3. Mae Dwr Cymru yn cynghori bod prif bibell ddŵr yn croesi'r safle, Cysylltwch â Dwr Cymru am wybodaeth bellach. Gellir cysylltu â hwy ar 01745 815815 (cyfeirnod 2004/babti/15910).

15/2004/1290/PR

Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl ac Enid Butler, Ty Newydd Abbeyland Llan y Iâl, a siaradwr o'r cyhoedd – Mr Rogers (o blaid)
Manylion adeiladu tŷ annedd (a gymeradwywyd dan gais amlinell rhif. 15/2004/0478/PO).
Tir yn cyffinio Tyn y Mynydd Abbeyland Llanarmon yn Iâl.
Yn amodol ar Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd - Nodwch fod y manylion a gyflwynwyd yn delio'n unig gyda'r mater canlynol a neilltuwyd - dyluniad a golwg allanol. Mae angen manylion pellach ar y dull mynediad a thirweddu. Mae gofyn i chi hefyd gydymffurfio gydag amodau rhif 4, 9, 10, 13 a 14 o'r caniatâd cynllunio amlinell cyf: 15/2004/0478/PO cyn cychwyn ar y datblygiad. Gall methu â chydymffurfio gyda hyn annilysu'r caniatâd cynllunio.
Swyddogion i weld os oes coed ar y safle sydd werth Gorchymyn Cadw Coed (ar ôl cais gan Gynghorydd) neu os oes unrhyw waith yn mynd yn groes i Orchymyn Cadw Coed.

43/2004/1047/PF

Ar ôl derbyn tri llythyr ychwanegol oddi wrth Mr J Pront (gydag e-bost) a'r Cynghorydd N. Hugh-Jones.
Adeiladu estyniad dau lawr to ar ongl yng nghefn tŷ annedd.
24 Bryntirion Drive, Prestatyn.
(Ymatalodd y Cynghorydd N.H. Jones rhag pleidleisio)
Yn amodol ar Amodau Diwygiedig, 5 a 6 –

3. Dileu "north elevation of the extension hereby permitted."
5. SC23C ychwanegu "in the north elevation of the extension hereby permitted."
6. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd dylid cyfeirio draeniad dwr wyneb i'r brif system ddraenio ac nid i ffos gerrig- *Rheswm* - I rwystro llifogydd mewn eiddo cyffiniol.

47/2003/1538/PF

Cynllun diwygiedig trosi allandy yn fwthyn gwyliau gyda mynedfa newydd i gerbydau a phont newydd (rhannol ôl-weithredol).
Allandy 2 yn Holywell Road Rhuallt Llanelwy.

47/2003/1186/PF

Adeiladu tŷ annedd ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau.
Tir y Berllan yn cyffinio Marl Cottage Rhuallt Road Cwm Dyserth Y Rhyl.
(Ymatalodd y Cynghorwyr R. Barton ac R.Ll. Williams rhag pleidleisio).
Yn amodol ar Amod diwygiedig 7 – – Cyn cychwyn ar y datblygiad, dylid anfon panel enghreifftiol o'r math o [waith carreg, mortar a phwyntio/rendr] y cynigir ei ddefnyddio ar arwynebau allanol y muriau ar y safle, a dylid parhau gyda'r datblygiad dim ond yn unol â sampl o'r fath a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol: a bydd y [gwaith carreg, mortar a phwyntio/rendr] i'w ddefnyddio ar yr adeilad(au) yn union o'r un math, gwedd a lliw a'r panel sampl a gymeradwywyd.

**Gwrthodiadau**

01/2004/0219/PF

**Er gwaethaf argymhelliad y Swyddogion gwrthod y canlynol**
Siaradwr yn erbyn - Edward Landor, Siaradwr o blaid – Christine Roberts.
Datganodd Jane Kennedy ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.
Ar ôl ystyried cynllun ychwanegol a ddosbarthwyd ac un llythyr ychwanegol a dderbyniwyd oddi wrth R. Gwynn Parry, Tan y Gaer, Park Street.
Newid defnydd tir amaethyddol er mwyn cadw ceffylau ar gyfer defnydd gan ysgol (Cae rhif 8028, 7342 a 6344).
Tir yn Ysgol Howells, Dinbych.
Yn dilyn cynnig i wrthod caniatâd a'r nifer gofynnol o aelodau'n gofyn am bleidlais cofnrestredig, gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau pleidleisio DROS neu'n ERBYN y cynnig i wrthod caniatâd cynllunio.
**Yn Erbyn (12)** Y Cynghorwyr J Butterfield, D Cooper, J M Davies, S A Davies, M A German, D Hannnam, K N Hawkins, N Hugh-Hones, P W Owen, N P Roberts, S Thomas, J Thompson-Hill
**Dros (13)** Y Cynghorwyr J R Bartley, R E Barton, G C Evans, H H Evans, T K Hodgson, N J Hughes, T R Hughes, D Jones, M M Jones, D A J Thomas, C H Williams, E W Williams, R Ll Williams.
Cymeradwywyd y penderfyniad, a oedd yn groes i argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm canlynol:
Penderfynu gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:
1. Mynediad annigonol o'r briffordd i'r safle
2. Effaith ar hyfywedd Fferm Goblin.

3. Colli tir amaethyddol (Polisi ENV11)
4. Effaith ar y dirwedd.
Oherwydd penderfyniad apêl flaenorol a'r rhesymau a awgrymwyd ar gyfer gwrthod, mae angen cyfeirio'r cais i'r Cyngor Llawn oherwydd goblygiadau cost.

01/2004/0715/CA

Dymchwel adeilad sinema (caniatâd Ardal Gadwraeth) Hen Safle Sinema Highgate Dinbych.
Cymerwyd y rheswm, a oedd yn groes i argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm canlynol:
1. Byddai'r cynnig yn groes i Bolisi CON 7 Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych gan nad yw cynnig ailddatblygu derbyniol wedi ei gymeradwyo a byddai dymchwel yn arwain at fwlch yng ngolygfa'r stryd ac Ardal gadwraeth Dinbych.

01/2004/0545/PF

Dymchwel adeilad presennol ac adeiladu 15 fflat i'r henoed, adeiladu mynediad newydd i gerbydau a cherddwyr. Hen safle Sinema, Highgate, Dinbych.
Cymerwyd y penderfyniad, a oedd yn groes i argymhelliad y swyddogion, am y rheswm canlynol:
1. Byddai'r cynnig, oherwydd ei uchder, maint a diffyg lle o gwmpas yr adeiladau, yn cynrychioli gor-ddatblygiad o'r safle a fyddai'n tynnu oddi wrth fwynderau gweledol a phreswyl yr ardal a chymeriad a golwg Ardal gadwraeth Dinbych yn groes i Bolisïau GEN 6 a CON 5 Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych.

03/2004/0010/PF

Siaradwr yn erbyn – John Ffoulkes-Jones.
Ar ôl ystyried newid i baragraff 6 a llythyr ychwanegol oddi wrth y Pennaeth Cludiant ac Isadeiledd.
Adeiladu 14 tŷ annedd a modurdai ac adeiladu mynedfeydd newydd a ffordd wedi ei mabwysiadu a gosod gorsaf bwmpio carthffosiaeth.
Tir yn cyffinio 10 Maesmawr Road Llangollen.
(Pleidleisiodd y cynghorwyr E. Williams, M. German, D. Cooper, Joan Butterfield, T. Hodgson a Janet Chamberlain-Jones i ganiatáu, ymatalodd J. Thompson-Hill rhag pleidleisio).
Cymerwyd y penderfyniad, a oedd yn groes i argymhelliad y swyddogion, am y rheswm canlynol:
1. Byddai'r cynnig yn arwain at ymwthio safle datblygiad y tu hwnt i'r ffiniau datblygu ar gyfer Llangollen. Byddai defnyddio darn amlwg o dir uwchben yr A5 yn weledol ymwthiol. Byddai'r cynnig felly yn groes i Bolisïau GEN 1, GEN 3, ENV 2 a HSG 16 Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych a chyfarwyddyd cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru.

45/2004/1248/PF

Newid defnydd ac isrannu Uned 2 yn rhannol Dosbarth A1 adwerthu a rhannol Dosbarth A3 (siopa gwerthu pizzas)
Uned 2(18) yn 18/20 Vale Road Y Rhyl.
Cymerwyd y penderfyniad, a oedd yn groes i argymhelliad y swyddogion, am y rheswm canlynol:
1. Byddai'r defnydd gwerthu pizzas A 3 arfaethedig yn arwain at sŵn ychwanegol, aflonyddiad, mwg a gweithgaredd yn enwedig gyda'r nos, ac yn andwyo mwynderau preswyl eiddo yn yr ardal o gwmpas, yn enwedig ar Vezey Street. Byddai'r cynnig yn groes i Bolisi RET 16 (maen prawf (iii)) Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych.

**Ymweliadau safle**

| | |
|---|---|
| 15/2004/1214/PF | Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl a'r Pennaeth Cludiant ac Isadeiledd.<br>Dymchwel estyniad to fflat ac adeiladu maes parcio newydd ar gyfer tŷ tafarn. Adeiladu tŷ annedd sengl ar ran o'r cyn faes parcio ac adeilad mynedfa newydd i gerbydau.<br>Sun Inn Village Road Eryrys Yr Wyddgrug<br>Ymweliad safle i ganfod yr effaith ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. |
| 17/2004/1211/PO | Ar ôl ystyried pedwar llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Llandegla, Dwr Cymru, Cludiant ac Isadeiledd a'r Ymgeisydd.<br>Manylion lefel gorffenedig y llawr, a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 6 caniatâd cynllunio rhif 16/2004/557/PF.<br>Tir yn cyffinio Bryn Hyfryd Pen y Stryt Llandegla Wrecsam.<br>Yn amodol ar ymweliad safle i ystyried natur serth y safle, effaith weledol ac effaith ar gymdogion a chynllun y tir. |
| 20/2004/1129/PF | Ar ôl ystyried pedwar llythyr ychwanegol oddi wrth CBY-AHNE, Prif Swyddog Cefn Gwlad (Coed), Asiant yr Ymgeisydd a Chyngor Cymuned Llanfair DC.<br>Adeiladu sied i storio / cynnal a chadw peiriannau a hofrennydd.<br>Pentrecelyn Hall Pentre Celyn Rhuthun<br>Yn amodol ar ymweliad safle i ystyried effeithiau gweledol a mwynderau. |
| 21/2004/0838/PF | Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Llanferres.<br>Adeiladu ty annedd yn lle un a fodolai cynt.<br>Ty Pren Hendre Foelas Pant Du Road Eryrys Yr Wyddgrug<br>Yn amodol ar ymweliad safle i asesu cyflwr y "ty annedd" ac effaith y datblygiad ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a choed ar y safle. |
| 45/2004/0813/PO | Ar ôl ystyried ychwanegiad i'r adroddiad ar y ffigwr swm cymudedig a dau lythyr ychwanegol oddi wrth Dr I.S. Futcher, 61 Russell Road, Y Rhyl ac Asiantaeth yr Amgylchedd.<br>Datblygu 0.19 hectar o dir trwy ddymchwel adeiladau presennol ac adeiladu 22 fflat 2 lofft, adeiladu mynedfa newydd i gerddwyr/gerbydau a blocio 2 fynedfa bresennol i gerbydau/gerddwyr (cais amlinell).<br>Ysgol Northgate 55-59 Ffordd Russell Y Rhyl.<br>Yn amodol ar ymweliad safle i ystyried yr effaith ar fwynderau gweledol a phreswyl a materion priffordd. |
| 45/2004/0999/PF | Ar ôl ystyried 10 llythyr ychwanegol oddi wrth Ann Jones (AC); Jean Hodgson, 8 Hilton Drive (e-bost x 2); Cyngor Tref Y Rhyl; P. Harrison, 25 Hilton Drive; G. Hollinshead, 27 Hilton Drive; J.G. Nolan, 3 Hilton Drive; R & M Jones 11a Hilton Drive; Mrs M. Pepper, 2 Tynewydd Road; J. Sandman, 19 Hilton Drive; P. Jones, 11 Hilton Drive. |

| | |
|---|---|
| | Dymchwel cyn westy a bwyty ac adeiladu 19 fflat dau lawr, ffyrdd cysylltiedig, mannau parcio, draeniad a gwaith tirweddu.<br>Point Hotel Hilton Drive, Y Rhyl.<br>Yn amodol ar ymweliad safle i asesu'r effaith ar fwynderau preswyl a gweledol. |
| 46/2004/0678/PC | Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth Graig Perch, Hennlys, Gilfach Road, Penmaenmawr.<br>Cadw ty annedd dros dro am bum mlynedd (cais ôl-weithredol)<br>Rhan Cae AO. 5000 a 6300 ym Mhen-y-Bryn Glascoed Road, Llanelwy.<br>Yn amodol ar ymweliad safle i ystyried effaith yr adeilad dros dro ac elfennau cyflogaeth a defnydd dros dro y cynllun. |

**Gohirio**

| | |
|---|---|
| 16/2004/1374/AC | Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol oddi wrth Paul Williams, 19 Tan y Bryn, Llanbedr x 2 a'r Ymgeisydd.<br>Manylion lefel gorffenedig llawr ty annedd a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 6 ar ganiatâd cynllunio rhif 16/2004/557/PF.<br>31 Tan y Bryn Llanbedr Dyffryn Clwyd Rhuthun<br>Gohirio i ganiatáu i'r cyfnod ymgynghorol fynd heibio ac adrodd ar ymatebion i'r Pwyllgor. |
| 43/2004/0317/PF | Siaradwr o blaid – David Jones.<br>Dymchwel allandai fferm presennol ac adeiladu 6 bwthyn stablau a bloc modurdai a gosod tanc septig newydd.<br>Llys Farm Meliden road Prestatyn<br>Gohirio i aros am gais Adeilad Rhestredig ac ystyried y ddau ar yr un pryd. |
| 44/2003/1477/PC | Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol oddi wrth y Cynghorydd M. German; Sue Broadaway (Cludiant ac Isadeiledd) a'r Prif Swyddog Cydymffurfio.<br>Parhau i ddefnyddio allandy amaethyddol i storio ac atgyweirio ceir rali.<br>Allandy yn Four Winds Farm Ffordd Ffynnon Prestatyn.<br>Gohirio – ymgynghori gyda Chyngor Tref Prestatyn. |
| 46/2004/0831/PF | Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth I Paynter ac N McHugh, Oriel Bungalow, Cyngor Tref Llanelwy.<br>Parhau i ddefnyddio tir i storio deunyddiau adeiladu ac offer (rhannol ôl-weithredol).<br>Cyn safle Pafiliwn Oriel House Ffordd Dinbych Uchaf, Llanelwy<br>Gohirio – goblygiadau priffordd a pholisi ac effaith weledol. |

**405 EITEM ORFODI**

ENF/2004/12 Rhan o Gae AO 5000 a 6300 Pen y Bryn Glascoed Road Llanelwy

***PENDERFYNWYD*** *gohirio'r eitem hon a disgwyl am ganlyniad y cais cynllunio.*

**406 DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn am gymeradwyaeth i ymweliadau safle i'w cynnal ar 29 Tachwedd 2004 yn deillio o Eitem Rhif 2 ar y Rhaglen, ac yn hysbysu'r pwyllgor o aelodaeth bresennol y Panel Ymweliadau Safle.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau safle ar 29 Tachwedd 2004*

Roedd y swyddogion yn bryderus ynglŷn â'r nifer o ymweliadau safle a chynnig arolygu'r drefn pe gallai'r Aelodau danlinellu unrhyw feysydd ar gyfer gwella, megis adroddiadau manylach. Bydd y swyddogion yn cyflwyno'r protocol presennol i Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth.

**407 EITEMAU AR GYFER GWYBODAETH**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) gan roddi gwybodaeth ar:

(i) Nodyn Cyngor Technegol newydd ar Ynni Adnewyddadwy (TAN 8)

(ii) Ffïoedd Cynllunio – hysbysu o gynnydd cyffredinol mewn ffïoedd, manylion y rhain a oedd ar y wefan

(iii) Cynlluniau Preswyl Newydd a Thai Fforddiadwy – mae adroddiad llawn yr Ymgynghorwyr i'w weld ar y wefan.

Unwaith eto, gofynnodd yr aelodau am dabl syml yn dangos nifer o dai fforddiadwy i'w darparu ym mhob achos.

Mae'r swyddogion yn paratoi Cyfarwyddyd Cynllunio Ategol a byddant yn cynnwys tabl yn y ddogfen honno.

**408 RHESTR O GEISIADAU A GAFODD EU TRIN DAN HAWLIAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn manylu ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 1af Hydref a 31ain Hydref 2004.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15 p.m.

*********